# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ASEDAU

## 23 CHWEFROR 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mawrth, 23 Chwefror 2021.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Helen Brown, Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd a Kevin Rush

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Haydn Bateman, y Cynghorydd Carolyn Thomas (Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad) a Patrick Heesom

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai); y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau), Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ac Uwch Reolwr Tai ac Asedau.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

### 41. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 42. COFNODION

Soniodd y Cynghorydd Ron Davies am y sylwadau cadarnhaol a wnaed i’r Rheolwr Rhaglenni Tai yn y cyfarfod diwethaf a’r diolch am ei waith dros sawl blwyddyn. Gofynnodd a oedd modd cynnwys y rhain yn y cofnodion. Dywedodd yr Hwylusydd y byddai’n adolygu’r cofnodion i sicrhau eu bod wedi’u cynnwys.

Cynigodd y Cynghorydd Ron Davies y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel rhai cywir ac y dylai’r Cadeirydd eu llofnodi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

### 43. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiweddaraf a chadarnhaodd un diwygiad i’r rhestr o eitemau sydd wedi’u trefnu i gael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Mawrth. Byddai’r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Adfer yn cael ei chyflwyno, a fyddai’n rhoi diweddariad i’r Pwyllgor ers i’r diweddariad diweddaf gael ei ystyried ym mis Rhagfyr, 2020.

Cadarnhaodd yr Hwylusydd na wnaeth unrhyw gamau godi o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, ac roedd pob cam gweithredu a oedd wedi codi o gyfarfodydd blaenorol wedi'u cwblhau, fel a ddywedwyd wrth y Pwyllgor eisoes.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Mared Eastwood a'u heilio gan y Cynghorydd Ron Davies.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**44. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**45. Y GWASANAETH ATGYWEIRIO TAI YN CAFFAEL SYSTEM COFRESTRU ADNODDAU DEINAMIG AC ADOLYGU PROFFIL SWYDD YR ARWEINYDD TÎM**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o'r achos busnes ac arwydd o sut gallai buddsoddi mewn technoleg ddarparu swyddogaeth atgyweirio tai sy'n canolbwyntio fwy ar gwsmeriaid.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau gyflwyniad manwl, a gafodd ei rannu ar y sgrin.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog a'r Uwch Reolwr Tai ac Asedau am eu cyflwyniad cynhwysfawr.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Billy Mullin, dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau fod ymgynghoriad wedi'i gynnal gydag Undebau Llafur Unison ac Unite am y cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac roedd adborth cadarnhaol wedi'i ddarparu.

Gan ymateb i gwestiynau a godwyd gan Aelodau am yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad, eglurodd y Prif Swyddog fod angen i'r modiwl atgyweirio gofynnol a thrwyddedau cysylltiedig fod yn y contract presennol gyda Capita. Awgrymodd hefyd bod y Pwyllgor yn cael adroddiad diweddaru blynyddol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gael sicrwydd bod y cyflawniadau a amlinellir yn y cynllun busnes yn cael eu bodloni.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Veronica Gay, dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau na fyddai Swyddogion Tai yn defnyddio'r dechnoleg a gynigiwyd, a rhoddodd enghreifftiau o'r dechnoleg maen nhw'n ei defnyddio ar hyn o bryd wrth gynorthwyo tenantiaid y Cyngor. Roedd potensial i ymestyn y dechnoleg a gynigir i Swyddogion Tai yn y dyfodol i gynorthwyo â threfnu apwyntiadau.

Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Cafodd hyn ei gynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi prynu a gweithredu datrysiad Atgyweirio Tai symudol sy'n cynnwys modiwl atgyweiriadau, trwyddedau cysylltiedig ac adnodd Dynamic Resource Scheduler (DRS);

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi rhyddhau uchafswm o £420,000 o gyllid y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer gweithredu o flaen llaw a chostau cefnogaeth a chynnal a chadw parhaus yn unol â dyfarnu contract ar gyfer y datrysiad uchod;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r modiwl gofynnol a thrwyddedau cysylltiedig yn y contract presennol gyda Capita;

(d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi caffael datrysiad DRS trwy Gytundeb Fframwaith Datrysiad Data a Chymwysiadau (DAS) am 5 mlynedd, gydag estyniad dewisol am ddwy flynedd arall; a

(e) Bod y Pwyllgor yn cefnogi rhoi dirprwyaeth i'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i ymestyn y contract(au) +1 +1 ar ddiwedd cyfnod y contract, sef 5 mlynedd.

## 46. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am, a gorffennodd am 11.26am)

…………………………

**Y Cadeirydd**